



Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar reoleiddio caffael yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 5 Ebrill 2016

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Mehefin 2016

Trosolwg Diben yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i randdeiliaid sydd â diddordeb gyfrannu eu safbwyntiau a'u barn ar gynlluniau ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth ar weithgarwch caffael cyhoeddus a gyflawnir gan Sector Cyhoeddus Cymru. Mae "Sector Cyhoeddus Cymru" yn contractio awdurdodau y mae eu swyddogaethau wedi'u datganoli'n llwyr neu'n rhannol i Gymru¹.

Sut i ymateb Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar **5 Ebrill 2016** ac yn dirwyn i ben ar **28 Mehefin 2016**. Gofalwch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau a nodir.

Ymatebwch drwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ac e-bostio neu bostio eich ymateb gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Mae fersiynau print mawr, braille, CD sain ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Manylion Cysylltu

Cyfeiriad post: Tîm Polisi
Gwerth Cymru
Grŵp yr Economi, Gwyddoniaeth a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: procurementconsultation@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu Data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw.

¹ "Mae "swyddogaethau wedi'u datganoli i Gymru" yn golygu swyddogaethau y gellid eu rhoi drwy ddarpariaeth sy'n rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i diffinnir yn adran 108 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair y Gweinidog

Ymgynghoriad ar Reoleiddio – Rhagair y Gweinidog

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i gaffael yng Nghymru. Mae'r pwerau newydd y mae Gweinidogion Cymru wedi'u derbyn i reoleiddio ar faterion caffael yng Nghymru, ynghyd â'r cyfleoedd a gyflwynir yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn nodi dechrau pennod newydd i ni. Mae'n cynnig cyfle newydd i ni nodi meysydd sy'n bwysig i Gymru, cyd-ddatblygu dulliau caffael effeithiol a chydweithio i sefydlu'r egwyddorion a geir yn Natganiad Polisi Caffael Cymru yn ein prosesau caffael.

Fel Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, rwy'n ymrwymedig i fwrw'r maen i'r wal i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau posibl ar y gwariant caffael o £5.5 biliwn a amcangyfrifir yng Nghymru a gwireddu manteision ehangach. Rydym wedi bod ar daith o weddnewid caffael ers dyddiau cynnar Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac rydym yn falch bod llawer o'r mentrau rydym wedi'u rhoi ar waith wedi'u cydnabod fel rhai sy'n torri tir newydd, nid yn unig yn y DU ond ledled y byd.

Cydnabyddir bellach fod caffael yn offeryn pwysig a strategol ac adlewyrchir hyn yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Rwy'n gwybod fod caffael yn ganolog i ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig y gall pobl yng Nghymru ddibynnu arnynt yn feunyddiol.

Mae'r dyddiau lle mai'r pris oedd pob dim wrth gaffael wedi hen fynd. Heddiw, mae enghreifftiau rhagorol ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru o sut mae caffael wedi'i ddefnyddio fel arf i sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol ehangach. Rwyf wedi defnyddio polisi caffael i hyrwyddo arferion cyflogaeth teg a moesegol yng Nghymru i helpu i gael gwared ar gosbrestru; bydd ein Cod Ymarfer Moesegol newydd, a fydd yn cael ei lansio fis Hydref, hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i helpu i drechu tlodi a hybu economi Cymru drwy ddarpariaethau Budd i'r Gymuned, sydd wedi creu cyfleoedd hyfforddiant a swyddi ar gyfer pobl ddifreintiedig ac wedi sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario yng Nghymru yn aros yng Nghymru.

Mae cadw cyflenwyr hyd braich i ffwrdd a gosod gofynion cynnig beichus arnynt bellach yn hen hanes. Heddiw, rydym yn gwrandao ar gyflenwyr ac yn dysgu ganddynt. Trwy'r Gwasanaeth Adborth Cyflenwyr newydd gallwn ddefnyddio adborth cyflenwyr yn adeiladol i helpu i wella prosesau caffael cyhoeddus yng Nghymru a llywio datblygiad polisi. Mae ymgysylltu'n gynnar â chyflenwyr hefyd yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol sy'n sbarduno cydweithredu yng Nghymru ac sydd wedi sicrhau arbedion o bron i £13m hyd yma. Mae dull y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr, wedi'i gyfuno â'r datblygiadau arloesol sydd wedi eu cyflawni gennym gydag e-gaffael yng Nghymru, yn arbed amser a chostau i gyflenwyr wrth gynnig am waith yn y sector cyhoeddus. Mae mwy o gyflenwyr bach a thrydydd sector yn cynnal eu busnes yng Nghymru o ganlyniad i hynny ac o'r herwydd, mae mwy wedi ymgeisio ar y cyd yn llwyddiannus nag erioed o'r blaen.

Mae'r rhain yn ganlyniadau trawiadol, ond gwn y gallwn ni wneud mwy. Bydd datblygu rheoliadau caffael yn galluogi hynny ac yn rhoi ysgogiad o'r herwydd i sicrhau gwelliannau pellach yng Nghymru. Ni fyddwn yn llunio polisi ar ein pen ein

hunain; er mwyn iddo fod yn effeithiol ac i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mor eang â phosibl, rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid a busnesau er mwyn iddynt ein helpu a llywio ein dull o weithio. Heddiw, rwy'n gofyn i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a rhannu'ch safbwyntiau. Helpwch ni i ddatblygu dulliau deallus ac arloesol a fydd yn helpu i roi lle mwy blaenllaw nag erioed i gaffael yng Nghymru er mwyn i ni allu edrych yn ôl mewn ugain mlynedd ac ymfalchïo yn ein rôl wrth lywio a gwella caffael cyhoeddus yng Nghymru.

Jane Hutt
Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Cynnwys

Cyflwyniad

Tudalen 7

Materion Cyffredin

Ffurflenni Caffael Blynnyddol

Tudalen 11

Budd i'r Gymuned

Tudalen 13

Contractau sydd wedi'u Cadw

Tudalen 16

Chwalu Rhwystrau

Tudalen 17

Cydweithredu

Tudalen 21

**Gwasanaethau Cymdeithasol a
Gwasanaethau Penodol Eraill**

Tudalen 23

**Ymddygiad Moesegol Cyflenwyr wrth
ddarparu Contractau Cyhoeddus**

Tudalen 24

Cyflwyniad

Mae gwariant caffael o tua £5.5 biliwn yn cael ei wneud bob blwyddyn gan Sector Cyhoeddus Cymru, sy'n cynrychioli traean o holl setliad cyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU.

Gall caffael cyhoeddus gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ac ar gymunedau ac economi Cymru.

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd strategol caffael cyhoeddus a'i ddull polisi unigryw ers tro, ac mae wedi ceisio sicrhau gwerth ychwanegol eang o'r gwariant hwn.

Daeth adolygiad John McClelland yn 2012, "[Gwneud y Gorau o Bolisi Caffael Cymru](#)" i'r casgliad bod ein polisiâu caffael cyhoeddus, fel Budd i'r Gymuned, yn bolisiâu a oedd yn torri tir newydd. Fodd bynnag, casgliad yr adolygiad oedd nad oedd ansawdd sut roedd ein polisi yn cael ei ddefnyddio a'i weithredu yn cyfateb i ansawdd y polisi a'r ffordd roedd yn cael ei gyfathrebu.

Yn benodol, o'r 27 o argymhellion a wnaed yn ei adolygiad, cynigiodd McClelland:

- Y dylid cyfuno polisi Llywodraeth Cymru i greu un ddogfen 'Polisi ac Arferion' unigol;
- Y dylid ystyried rhoi polisi caffael cyhoeddus ar waith fel dyletswydd; ac
- Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried o ddifrif cyflwyno deddfwriaeth yn y tymor canolig.

Yn sgil hynny, cyhoeddodd Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth [Ddatganiad Polisi Caffael Cymru](#) ym mis Rhagfyr 2012, gyda [fersiwn ddiwygiedig](#) yn cael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2015.

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn ategu'r fframwaith hyblyg a ddarparwyd gan [Reoliadau Contractau Cyhoeddus \(2015\)](#) ac mae'n cyfathrebu'n glir ddisgwyliadau Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, gan nodi'r egwyddorion y disgwylir i Sector Cyhoeddus Cymru eu harddel yn ei weithgarwch caffael cyhoeddus.

Yn ganolog i Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhaglen o Wiriadau Ffitrwydd i Gaffael ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru i'w helpu i gefnogi datblygiad y gallu i fabwysiadu polisi caffael Cymru a sicrhau gwell canlyniadau o wariant caffael trydydd parti.

Mae'r rhaglen o adolygiadau Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael sydd wedi'u cwblhau hyd yma wedi dangos bod cynnydd wedi'i wneud, ond bod cyfle o hyd i sefydlu Polisi Caffael Cymru ymhellach gan gynyddu'r gwerth sy'n cael ei gyflawni drwy gaffael.

Felly, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael safbwyntiau rhanddeiliaid sydd â diddordeb i helpu i lywio datblygiad deddfwriaeth gaffael a fydd yn galluogi'r sector cyhoeddus a busnes i sicrhau gwerth pellach o wariant caffael blynyddol Sector Cyhoeddus Cymru.

Y Polisi Caffael yng Nghymru – y Cyd-destun

Datganiad Polisi Caffael Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod caffael ledled Sector Cyhoeddus Cymru yn cael cymaint o sylw â phosibl er mwyn gallu sicrhau'r gwerth mwyaf o'r gwariant hwn.

Nodir disgwyliadau Sector Cyhoeddus Cymru yn [Datganiad Polisi Caffael Cymru](#), a dyma'r deg egwyddor:

Strategol – Dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol.

Adnoddau proffesiynol – dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant ar draws y sector cyhoeddus ehangach.

Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol – Dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.

Manteision Cymunedol – rhaid i gyflawni budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gymhwyso polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol fod yn rhan annatod o waith caffael.

Cystadleuaeth agored, hygyrch – dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau fel unigolion, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi.

Prosesau Safonol Syml – dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion cyflenwyr mewn ffordd briodol.

Cydweithredu – dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i wreiddio egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.

Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi – dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael y gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth am arian gorau.

Datblygu a Gweithredu Polisi - defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Mesur ac Effaith – yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a drwg gael eu rhannu'n agored.

Er nad yw'n ofyniad statudol i fabwysiadau'r egwyddorion yn Natganiad Polisi Caffael Cymru, mae disgwyliad cryf gan Weinidogion bod Sector Cyhoeddus Cymru yn eu mabwysiadu.

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael, ac o ddadansoddiadau cyfnodol o wariant caffael, yn dangos bod y sefydliadau hynny sydd wedi datblygu dulliau blaengar yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru yn sicrhau gwell canlyniadau.

Yn yr un modd, nid yw'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi gallu mabwysiadu Datganiad Polisi Caffael Cymru yn llawn yn gwireddu potensial eu gweithgarwch caffael o reidrwydd ac ystyrir deddfwriaeth fel ffordd o helpu i sbarduno gwelliannau parhaus ym maes caffael ar draws Sector Cyhoeddus Cymru.

Er bod yr holl brif gyrff cyhoeddus wedi ymrwymo i fabwysiadu Datganiad Polisi Caffael Cymru, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod y ffordd y mae'r egwyddorion yn cael eu rhoi ar waith yn amrywiol. Mae'r adran ganlynol (Materion Cyffredin) yn ceisio nodi'r meysydd hynny lle mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer deddfu er mwyn gwella'r ffordd o fabwysiadu egwyddorion allweddol Datganiad Polisi Caffael Cymru.

Mae crynodeb o aeddfedrwydd caffael, wedi'i fesur gan y rhaglen Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael ar draws Sector Cyhoeddus Cymru, ar gael yn nhabl 1 isod:

Sector	Lefel aeddfedrwydd	Nifer y sefydliadau
Llywodraeth Leol	0	1
Llywodraeth Leol	1	12
Llywodraeth Leol	2	3
Llywodraeth Leol	3	6
Llywodraeth Leol	4	0
Addysg Uwch	0	1
Addysg Uwch	1	4
Addysg Uwch	2	2
Addysg Uwch	3	1
Addysg Uwch	4	0
Iechyd	3	1

Ym mis Awst 2015, sicrhodd Gweinidogion Cymru ddynodiad cyffredinol ar gaffael cyhoeddus gan Lywodraeth y DU dan Adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae'r dynodiad hwn yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth ar gaffael cyhoeddus mewn perthynas â Sector Cyhoeddus Cymru.

Ar ôl ymgynghori yn y lle cyntaf â'r sector cyhoeddus, busnesau a rhanddeiliaid partneriaid cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru bellach yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar feysydd posibl amrywiol lle gellid defnyddio deddfwriaeth ym maes caffael cyhoeddus.

MATERION CYFFREDIN

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i uchafu gwerth caffael cyhoeddus ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Rydym yn chwilio am safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cwrmpas a'r opsiynau posibl i ddefnyddio'r pwerau newydd a gafwyd ym mis Awst 2015 sy'n galluogi i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth ar gaffael cyhoeddus.

Yn yr adran hon, nodir rhagor o wybodaeth ar y meysydd sy'n cael eu hystyried, gan gynnwys:

- Ffurflenni Caffael Blynnyddol;
- Bydd i'r Gymuned;
- Contractau sydd wedi'u Cadw;
- Chwalu Rhwystrau;
- Cydweithredu;
- Gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill;
- Ymddygiad moesegol cyflenwyr wrth ddarparu contractau cyhoeddus.

Ffurflenni Caffael Blynnyddol

Cyd-destun

Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu darpariaeth y rhaglen Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael lle asesir gallu caffael Sector Cyhoeddus Cymru yn erbyn model aeddfedrwydd caffael. Mae'r model aeddfedrwydd caffael yn diffinio beth yn union yw caffael da ac yn helpu Sector Cyhoeddus Cymru i asesu ei allu yn erbyn meini prawf a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella.

Cyflawnwyd y cylch cyntaf o Wiriadau Ffitrwydd i Gaffael hyd at 2014 a bwriedir cynnal y cylch nesaf yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.

Mae canlyniadau'r adolygiadau Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael hyn yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd yn:
<http://prp.gov.wales>

Mae cyhoeddi'r adroddiadau Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael wedi tynnu sylw at allu caffael ar draws Sector Cyhoeddus Cymru.

Y prif fater

Y tu allan i'r rhaglen Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael, nid oes llawer o adrodd ar draws Sector Cyhoeddus Cymru ar ganlyniadau caffael cyhoeddus. Lle mae cyrff cyhoeddus yn adrodd ar ganlyniadau o'r fath, nid oes fformat cyson i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael. Mae hyn yn golygu nad oes dull y cytunir arno o adrodd yn erbyn dangosyddion a ddiffinnir a fydd yn helpu i wella perfformiad ym maes caffael ac yn sicrhau bod mwy yn mabwysiadu Datganiad Polisi Caffael Cymru.

Y sefyllfa gyfredol

Yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lunio templed safonol ar gyfer ffurflen y cytunir arno, y byddai Sector Cyhoeddus Cymru yn ei gwblhau bob blwyddyn. Bwriedir cwblhau a chytuno ar y templed a fydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer y Ffurflen Gaffael Flynyddol erbyn mis Mehefin 2016.

Mae'r meysydd yr ystyrir eu cynnwys yn y Ffurflen Gaffael Flynyddol yn cynnwys:

- Gwariant y gellir dylanwadu arno;
- Cydweithredu;
- Arbedion;
- Adborth cyflenwyr;
- Effeithlonrwydd y swyddogaeth caffael;
- Budd i'r Gymuned;
- e-gaffael;
- Cynaliadwyedd;
- Gallu caffael

Bwriedir dechrau'r drefn adrodd flynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

Disgwylir i Sector Cyhoeddus Cymru gyflwyno ffurflenni i Lywodraeth Cymru yn chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2017/18.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Nid oes fformat safonol yn ei le i Sector Cyhoeddus Cymru adrodd ar ganlyniadau a gyflawnir drwy gaffael.

Fel yn achos gwybodaeth gaffael arall (e.e. Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned, gweler y cyfeiriad yn yr adran Materion Cyffredin) y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdani gan Sector Cyhoeddus Cymru, nid yw'n cael ei darparu'n rheolaidd os nad yw'n ofynnol gwneud hynny.

Pam rydym yn argymhell newid?

I ategu'r wybodaeth a gyhoeddwyd o'r rhaglen Gwiriad Ffitrwydd i Gaffael, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cyhoeddi Ffurflen Gaffael Flynyddol a rhoi sylw i berfformiad ar draws Sector Cyhoeddus Cymru yn erbyn cyfres o ddangosyddion y cytunir arnynt yn helpu i wella gallu caffael, sicrhau mwy o dryloywder a'r gwerth mwyaf posibl am arian. Bydd hyn yn helpu i sicrhau gwell gwerth am arian ac yn sicrhau bod caffael yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar gyfer cymunedau ac economi Cymru, gan gefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus well.

Argymhellion

Cynigir bod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol i Sector Cyhoeddus Cymru gwblhau Ffurflen Gaffael Flynyddol (yn y fformat y bwriedir cytuno arno erbyn mis Mehefin 2016) i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. O dan yr argymhelliad hwn, bydd y gofyniad i gwblhau adroddiad o'r fath yn dod i rym ym mlwyddyn ariannol 2017/18, gan adrodd ar y flwyddyn ariannol flaenorol, sef 2016/17.

Ar ôl ei derbyn, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Adroddiadau sydd wedi'u cyflwyno.

Mae gennym ni ddiddordeb i ddeall a yw rhanddeiliaid yn ystyried y dylai fod yn ofynnol i Sector Cyhoeddus Cymru gyflwyno Adroddiad Caffael Blyneddol i Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn 1:

A ydych chi'n credu bod cyhoeddi adroddiadau Gwiriad Ffitrwydd i Gaffael yn darparu digon o wybodaeth ar berfformiad caffael ar draws Sector Cyhoeddus Cymru?

A ddylai fod dyletswydd statudol ar Sector Cyhoeddus Cymru i gyhoeddi/cyflwyno Adroddiad Caffael Blyneddol bob blwyddyn? Rhowch resymau dros eich ateb.

Os dylai, pa feini prawf ddylai gael eu cynnwys ar Ffurflenni Caffael Blyneddol safonedig yn eich barn chi?

Budd i'r Gymuned

Cyd-destun

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi'r disgwyliad y dylai Sector Cyhoeddus Cymru gymhwyso:

- Dull Budd i'r Gymuned wrth arfer caffael sector cyhoeddus bob amser;
- Offeryn mesur ar gyfer pob contract o'r fath dros £1 filiwn.

Nid yw polisi Budd i'r Gymuned (www.prp.gov.wales) yn pennu natur y gwerth ychwanegol y dylid ei ddarparu, ond mae'n rhoi fframwaith i'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer defnyddio caffael cyhoeddus i ddarparu ystod eang o werth ychwanegol:

- Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant;
- Creu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi;
- Lliniaru effeithiau amgylcheddol niweidiol.
- Recriwtio a hyfforddi pobl sy'n economaidd anweithgar
- Hyrwyddo cydraddoldeb yn y gweithle
- Creu cyfleoedd i sefydliadau bach yng Nghymru, megis busnesau bach a chanolig, Sefydliadau Trydydd Sector a Ffatrioedd a Busnesau a Gynorthwyr
- Sicrhau bod grwpiau dan anfantais yn cael eu cynrychioli yn y gadwyn gyflenwi drwy weithio gyda'r sefydliadau llai o faint hyn
- Cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd
- Cyfrannu at y gymuned leol mewn perthynas ag addysg, adfywio ac ymgysylltu â'r gymuned

Y prif fater

Er bod Budd i'r Gymuned yn un o egwyddorion sylfaenol Datganiad Polisi Caffael Cymru y mae Sector Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo iddi, dengys y dystiolaeth nad yw'r ymrwymiad hwn yn arwain at gymhwyso'r dull i bob contract perthnasol.

O ganlyniad, mae'n debygol nad yw'r gwerth ehangach y gellir ei ennill drwy wariant caffael cyhoeddus yn cael ei gyflawni ym mhob achos.

Y sefyllfa gyfredol

Cyhoeddwyd Datganiad Polisi Caffael Cymru gyntaf yn 2012 gan gyflwyno disgwyliad y byddai Sector Cyhoeddus Cymru yn cymhwyso polisi Budd i'r Gymuned ac yn mesur ei effaith ar draws contractau.

Cyflwynwyd Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned yn 2012 i helpu i fesur effaith y dull polisi hwn. Ers hynny, mae 180 o brosiectau wedi cyflwyno ffurflenni gan ddefnyddio'r Offeryn hwn.

Mae canlyniadau o'r 180 o brosiectau cyntaf a fesurwyd gan ddefnyddio'r Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned ac sy'n werth £1 biliwn, wedi arwain at 1,595 o gyfleoedd gwaith a thros 35,000 wythnos o hyfforddiant, gydag 83% o'r gwariant yn cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru ar fusnesau a chyflogau.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Mae'r sefyllfa gyfredol a ddarluniwyd uchod yn dangos bod 158 o gontractau gwerth £1 filiwn neu fwy wedi'u hysbysebu ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru dros y cyfnod rhwng 2015/16.

O'r herwydd, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod rhagor o le o hyd i gymhwyso polisi Budd i'r Gymuned ar draws Sector Cyhoeddus Cymru a darparu mwy o werth o wariant caffael cyhoeddus o ganlyniad i hynny.

Pam rydym yn argymhell newid?

Fel y dangosa'r data a gasglwyd o'r 180 o brosiectau sydd wedi cofnodi canlyniadau gan ddefnyddio'r Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned, mae cymhwyso'r polisi hwn yn arwain at ddarparu lefelau uchel o werth ychwanegol i gymunedau ac economi Cymru.

Fel arfer, ar gyfer pob £1 filiwn o wariant contract ceir cyfle i weld hyd at 52 wythnos o gyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer pobl economaidd anweithgar.

Mae dystiolaeth yn dangos, fodd bynnag, nad yw'r polisi Budd i'r Gymuned i'w weld yn cael ei gymhwyso i bob contract perthnasol fel y'u nodwyd yn Natganiad Polisi Caffael Cymru.

Bydd cymhwyso'r polisi Budd i'r Gymuned yn ehangach yn helpu Sector Cyhoeddus Cymru i gyflawni'r nodau a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gallai cyflwyno deddfwriaeth ddarparu ffordd o'i gwneud yn ddyletswydd ar y sector cyhoeddus yng Nghymru naill ai i gymhwyso neu i ystyried y polisi Budd i'r Gymuned a chofnodi canlyniadau a gyflawnir drwy ei gymhwyso.

Argymhellion

O ystyried effaith Budd i'r Gymuned drwy gaffael, barn Llywodraeth Cymru yw y dylai fod dyletswydd ar Sector Cyhoeddus Cymru naill ai i gymhwyso neu i ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Budd i'r Gymuned ar gyfer pob contract sy'n werth cyfanswm o £1 filiwn neu fwy, fel sy'n ofynnol o dan Ddatganiad Polisi Caffael Cymru, ac i adrodd ar ganlyniadau a gyflawnwyd i Lywodraeth Cymru, gan ddefnyddio'r Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned.

Cwestiwn 2:

A ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i gymhwyso unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Budd i'r Gymuned?

Os na, a ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Budd i'r Gymuned?

Rydym o'r farn y dylai budd i'r gymuned fod yn gymwys mewn perthynas â chontractau sy'n werth £1 filiwn neu fwy. A ydych chi'n cytuno? Pam/Pam ddim?

Os nad ydych yn cytuno, beth ddylai'r isafswm gwerth fod yn eich barn chi, a pham?

Rydym o'r farn y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i gwblhau'r Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned ar gyfer pob contract sy'n werth cyfanswm o dros £1 filiwn a dychwelyd y wybodaeth hon i Lywodraeth Cymru. A ydych chi'n cytuno? Pam?/Pam ddim?

Os nad ydych, beth ddylai'r isafswm fod yn eich barn chi, a pham?

A oes ffyrdd eraill y gellid annog Sector Cyhoeddus Cymru i gynyddu lefelau mabwysiadu'r polisi Budd i'r Gymuned?

Contractau sydd wedi'u cadw

Cyd-destun

Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) yn gwneud darpariaeth i Sector Cyhoeddus Cymru gadw hawl gweithdai neu gyflenwyr gwarchodol y mae integreiddio cymdeithasol a phroffesiynol pobl anabl neu ddifreintiedig yn brif nod iddynt i gymryd rhan mewn proses gaffael, lle mae 30% neu fwy o'u gweithwyr yn bobl anabl neu ddifreintiedig.

Y prif fater

Lle gellir cadw contractau addas, mae'r cyflenwyr llwyddiannus yn darparu llwybrau i gyflogaeth ystyrion i bobl a allai ei chael hi'n anodd fel arall i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith.

Yn ogystal, ceir cyfle i gadw rhai contractau er mwyn i gwmnïau cydweithredol neu gydfuddiannol a ffurfiwyd o'r newydd gystadlu amdanynt.

Y sefyllfa gyfredol

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru hefyd yn nodi'r disgwyliad y bydd Sector Cyhoeddus Cymru yn nodi meysydd gwariant y gellir eu cadw i gyflenwyr sydd â gweithlu o 30% neu fwy o weithwyr difreintiedig neu nodi meysydd gwariant y gellir eu cadw ar gyfer cyflenwyr gydag ethos cymdeithasol, e.e. Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, ar y tendr cyntaf.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Mae'r modd y caiff y darpariaethau eu cymhwyso ar gyfer cadw contractau wedi bod y gyfyngedig iawn ar draws Sector Cyhoeddus Cymru a lle cafodd ei ddefnyddio, bu'r ymgysylltiad â'r contractau dilynol yn siomedig.

Ers cyflwyno Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, ychydig o dystiolaeth a gafwyd drwy www.gwerthwchigymru.llyw.cymru o'r defnydd o'r darpariaethau newydd ar gyfer cadw contractau.

Pam rydym yn argymhell newid?

I gefnogi polisi Budd i'r Gymuned Llywodraeth Cymru, rydym o'r farn bod mwy o botensial i ddefnyddio'r darpariaethau ar gyfer cadw contractau a darparu gwerth cymdeithasol ychwanegol o wariant caffael cyfunol Sector Cyhoeddus Cymru drwy wneud hynny.

Argymhellion

O'r herwydd, barn Llywodraeth Cymru yw y dylid annog Sector Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio'r darpariaethau hyn yn fwy helaeth. Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau ar gyfer cynyddu'r defnydd o gontractau wedi'u cadw, er enghraifft, drwy osod dyletswydd statudol ar Sector Cyhoeddus Cymru i'w gwneud yn ofynnol iddynt

ystyried y posibilrwydd o gadw contractau. Fodd bynnag, barn Llywodraeth Cymru yw y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i Sector Cyhoeddus Cymru ystyried canllawiau polisi ar y posibilrwydd o gadw contractau.

Rydym yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ar opsiynau ar gyfer cynyddu defnydd y sector cyhoeddus yng Nghymru o'r darpariaethau hyn.

Cwestiwn 3:

A ydych chi'n credu y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar y posibilrwydd o gadw contractau caffael yn ei weithgareddau caffael?

Os felly, a ydych chi'n meddwl y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru i gadarnhau ei fod yn cyflawni'r ddyletswydd honno ar y Ffurflenni Caffael Blyneddol a nodwyd yng Nghwestiwn 1 uchod?

Os na, yn eich barn chi pa fesurau eraill y gellid eu defnyddio i annog y defnydd o gontractau wedi'u cadw?

Chwalu rhwystrau

Cyd-destun

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cynnwys ystod eang o ymrwymïadau sy'n cynorthwyo Sector Cyhoeddus Cymru i leihau rhwystrau i gyflenwyr sy'n awyddus i gael mynediad at gontractau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r ymrwymïadau hyn yn cynnwys:

- Hysbysebu pob contract dros £25,000 ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru;
- Cyhoeddi blaenraglenni contractau;
- Hollti contractau'n 'rhannau' llai o faint;
- Defnydd o'r dull Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr;
- Cyhoeddi hysbysiadau o gontractau a ddyfarnwyd ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru;
- Cymhwyso'r canllaw Ymgeisio ar y Cyd i annog tendrau ar y cyd;
- Mabwysiadu arferion talu teg.

Y prif fater

Ceir tri phrif faes ffocws ar gyfer yr ymgynghoriad hwn – hysbysebu contractau, dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ac ymgeisio ar y cyd ac mae'r tri yn cael sylw yn y paragraffau isod.

Ers i www.gwerthwchigymru.llyw.cymru gychwyn, mae cyrff cyhoeddus mawr wedi defnyddio'r plattfform i hysbysebu eu contractau cyhoeddus a bu cynnydd cyson yn amlygrwydd contractau o werth is. Mae hyn wedi galluogi cyflenwyr llai o faint a mwy lleol i gynyddu eu cyfran o gontractau Sector Cyhoeddus Cymru.

Mae Sector Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr a lle'i defnyddiwyd, mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyflenwyr llai o faint a mwy lleol yn gallu symud ymlaen drwy gam cyn-gymhwyso'r broses gaffael a chael cyfle gwell i ennill contractau. Mae dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr yn cefnogi'r Ddogfen Caffael Sengl Ewropeaidd newydd a gyflwynwyd drwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Lansiwyd y Canllawiau Ymgeisio ar y Cyd yn 2013 ac mae'n rhoi canllawiau polisi a chymau ymarferol i Sector Cyhoeddus Cymru i annog ceisiadau gan gonsortia o gyflenwyr llai o faint. Mae'r Canllaw hefyd yn darparu cyngor i gyflenwyr sy'n ystyried ffurfio mentrau ar y cyd i ymgeisio am gontractau Sector Cyhoeddus Cymru. Mae'r Canllawiau wedi'u cymhwyso ar gyfer ystod o brosiectau braenaru. Dengys tystiolaeth o'r cynlluniau braenaru hyn fod cymhwyso'r Canllawiau wedi galluogi cyflenwyr llai o faint i ffurfio consortia ac ennill contractau a fyddai wedi bod y tu hwnt i'w cyrraedd fel arall. Gall cymhwyso'r Canllawiau gynyddu cystadleuaeth a hybu twf economaidd. Rydym yn awyddus i weld mwy o ddefnydd o'r Canllawiau.

Y sefyllfa gyfredol

Cymhwysir yr holl gynlluniau hyn ar sail wirfoddol ac nid oes unrhyw ddyletswydd ar Sector Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd i ddefnyddio'r dulliau hyn.

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, cyhoeddwyd oddeutu 3,700 o hysbysiadau contract ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru. O'r cyfansymiau hyn, roedd 2,700 o hysbysiadau contract am gontractau a oedd yn is na'r trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol i Sector Cyhoeddus Cymru hysbysebu cyfleoedd yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Cymhwyswyd dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr mewn perthynas â llai na 500 o'r contractau a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru. Golyga hyn na chymhwyswyd y dull mewn perthynas â 3,200 o'r contractau hyn.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Ers ei lansio yn 2003, gwelwyd cynnydd cyson yn nifer y contractau o werth is a hysbysebwyd ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru. Er hynny, o'u cymryd fel cyfartaledd, mae nifer gyfredol y cyfleoedd contract is eu gwerth a hysbysebir ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru oddeutu 50 ar gyfer pob sefydliad Sector Cyhoeddus yng Nghymru, sydd i'w weld yn eithaf isel, ac yn awgrymu nad yw pob contract dros £25k yn cael eu hysbysebu mewn gwirionedd.

Mewn un sector lle cymhwyswyd dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr, dengys y dystiolaeth fod y dull wedi helpu i gynyddu cyfranogiad cyflenwyr

llai o faint a mwy lleol yn y ddarpariaeth o contractau Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Ar gyfer contractau adeiladu sy'n werth mwy na £750k a ddyfarnwyd drwy www.gwerthwchigymru.llyw.cymru, contractwyr cynhenid sy'n ennill bron 70% o'r contractau hyn bellach, o gymharu â 30% yn unig cyn cyflwyno dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr.

Arweiniodd treialu'r Canllawiau Ymgeisio ar y Cyd dros 12 o brif fframweithiau a chontractau at gonsortia a gynhwysai gyflenwyr llai o faint yn ennill 6 o contractau.

Pam rydym yn argymhell newid?

Mae cyflenwyr yng Nghymru wedi cynyddu eu cyfran o wariant caffael Sector Cyhoeddus Cymru o 35% i 52% dros y cyfnod 2004 - 2012. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y bydd y defnydd o ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol mabwysiadu cynlluniau polisi sy'n chwalu rhwystrau a lleihau cost caffael yn galluogi cyflenwyr llai o faint a mwy lleol i gael mynediad at gontractau Sector Cyhoeddus Cymru ac i gystadlu amdanynt.

Argymhellion

Er mwyn helpu i wella'r modd yr ymgorfforwyd Polisi Caffael Cymru, sy'n chwalu rhwystrau i gyflenwyr llai o faint, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai fod dyletswydd ar Sector Cyhoeddus Cymru:

- I gyhoeddi hysbyseb o bob contract dros £25,000 ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru, ac eithrio contractau yn ôl y gofyn o gytundebau fframwaith y cystadlwyd amdanynt ymlaen llaw;
- I gymhwyso dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr pob contract sy'n galw am gystadleuaeth;
- I ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymgeisio ar y cyd wrth ffurfio strategaethau caffael.

Rydym yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ar sut y gellid cryfhau'r ymrwymadau hyn drwy ddeddfwriaeth, gan wella amlygrwydd a mynediad at gontractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cwestiwn 4:

(a.) Defnydd o wefan gwerthwchigymru

A ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i hysbysebu pob contract dros £25,000 ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru, ac eithrio contractau yn ôl y gofyn o gytundebau fframwaith y cystadlwyd amdanynt ymlaen llaw?

NEU

A ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â hysbysebu pob contract dros £25,000 ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru, ac eithrio contractau yn ôl y gofyn o gytundebau fframwaith y cystadlwyd amdanynt ymlaen llaw?

Os dylai, a ydych chi'n credu bod y trothwy o £25,000 yn addas? Os nad yw, beth ydych chi'n credu y dylai fod a pham?

(b.) Dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr o ddethol cyflenwyr

A ydych chi'n credu y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio dull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr?

NEU

A ydych chi'n credu y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar ddull y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr ar gyfer dethol cyflenwyr?

(c.) Canllawiau Ymgeisio ar y Cyd

A ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i gymhwyso unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag Ymgeisio ar y Cyd er mwyn helpu i nodi pa gcontractau sy'n addas ar gyfer ceisiadau gan gonsortia?

NEU

A ddylai fod dyletswydd ar Sector Cyhoeddus Cymru i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag Ymgeisio ar y Cyd er mwyn helpu i nodi pa gcontractau sy'n addas ar gyfer ceisiadau gan gonsortia?

A oes unrhyw gamau eraill y credwch y byddent yn helpu i leihau rhwystrau a chostau sydd o bosibl yn rhwystro cyflenwyr rhag cael mynediad at gcontractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru?

Cydweithredu

Cyd-destun

Sefydlwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn 2012 gyda'r amcan o gydgyssylltu caffael gwariant cyffredin ac ailadroddus ar draws Sector Cyhoeddus Cymru.

Wrth wneud hynny, nod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw bod yn gyfrwng pwysig i hybu egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru drwy ymgorffori ei holl ofynion er mwyn darparu rhaglen gaffael gydweithredol.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn un o nifer o Gyrff Prynu Canolog y gall Sector Cyhoeddus Cymru ei ddefnyddio i gael mynediad at gontractau a chytundebau fframwaith y cystadlwyd amdanynt ymlaen llaw ar gyfer cyflenwi gwariant cyffredin ac ailadroddus.

Y prif fater

Mae mwyafrif sylweddol o sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r contractau a'r cytundebau a roddwyd ar waith gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Ystyrir yr ymrwymiad hwn fesul achos a gall sefydliadau unigol y sector cyhoeddus yng Nghymru gyflwyno achos dros optio allan o gontractau penodol.

Cyflwynwyd achosion dros optio allan o gontractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar y sail yr ystyrir bod fframweithiau mawr cenedlaethol yn diystyru ymwneud sylfaen gyflenwi leol rhai sefydliadau ac nad yw'r cynnyrch sydd ar gael drwy'r trefniadau yn cyd-fynd â dewisiadau defnyddwyr lleol.

Y sefyllfa gyfredol

Lle mae sefydliadau yn dewis peidio ag ymwneud â chontractau a osodir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol neu'n defnyddio cytundebau a osodwyd gan Gyrff Prynu Canolog eraill, gall hyn gynyddu cost caffael i fusnes a gall leihau'r fantais o drefnu contractau sector cyhoeddus ar gyfer Cymru gyfan.

Er y ceir proses optio allan ar gyfer ystyried achosion dros beidio ag ymwneud â chontractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, nid oes ymrwymiad ar Sector Cyhoeddus Cymru i gytuno ag unrhyw benderfyniadau yn hyn o beth.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Ni ellir hyrwyddo gwariant cydweithredol ac arbedion cysylltiedig i'r eithaf a rhaid i dimau caffael lleol ddyblygu ymdrechion wrth geisio rheoli gweithgaredd sydd hefyd yn cael ei gydlyn gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, neu Gyrff Prynu Canolog eraill.

I oresgyn hyn, ceir opsiwn o'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru ddefnyddio contractau cydweithredol neu gytundebau fframwaith penodol a osodwyd gan Gyrff Prynu Canolog lle gall y contractau hyn ddangos eu bod yn

cynnig gwerth gorau am arian. Gwnaed hyn mewn rhannau eraill o'r DU, lle mae'r Swyddfa Gartref wedi gorchymyn y dylid defnyddio contractau penodol ar gyfer sector yr Heddlu.

Pam rydym yn argymhell y newid?

Rydym o'r farn fod y defnydd o gontractau a/neu gytundebau fframwaith penodol wedi'u gosod gan Gyrff Prynu Canolog a'u cefnogi gan ymgysylltiad cryf â Sector Cyhoeddus Cymru yn gyfle gwych i uchafu gwerth gweithgaredd caffael ar y cyd ar draws meysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus.

Gall trefniadau o'r fath gyflawni yn erbyn agweddau pwysig ar Ddatganiad Polisi Caffael Cymru a chaniatáu hefyd i dimau caffael lleol ganolbwyntio eu hadnoddau prin ar hybu gwerth o wariant na chaiff ei reoli gan Gyrff Prynu Canolog, megis adeiladu a gofal cymdeithasol.

Rydym yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ynglŷn ag a ddylid defnyddio deddfwriaeth i'w gwneud yn ddyletswydd ar Sector Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio contractau penodol a osodwyd gan Gyrff Prynu Canolog?

Argymhellion

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod proses ar gyfer nodi contractau penodol y dylid ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol i Sector Cyhoeddus Cymru eu defnyddio.

Bydd y broses ar gyfer nodi'r contractau hyn yn ystyried ffactorau gwerth am arian ond ni ddylent fod yn gyfyngedig i'r effaith ar bwysau prynu Sector Cyhoeddus Cymru os nad oes ymrwymiad 100% gan Sector Cyhoeddus Cymru; argaeledd trefniadau prynu eraill a osodwyd gan Gyrff Prynu Canolog eraill; a'r effaith ar gadwyni cyflenwi a marchnadoedd.

Cwestiwn 5:

A ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio contractau penodol a bennir fesul achos, ac sydd wedi'u gosod gan Gyrff Prynu Canolog?

Gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill

Cyd-destun

Mae Rheoliadau 74-77 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn nodi'r sail y dylai awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus yng Nghymru gaffael ystod o wasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill. Rhestrir yr ystod o wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth hon yn Atodlen 3 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Y prif fater

Roedd Erthygl 76 o'r Gyfarwydddeb Caffael Cyhoeddus (2014/24/UE) yn gwneud darpariaeth i aelod-wladwriaeth gynnwys rheolau ar gyfer dyfarnu contractau a gwmpasai'r gwasanaethau hyn. Nid yw'r Gyfarwydddeb fel y'i troswyd i gyfraith y DU drwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn trafod y mater hwn ac nid yw'n gorchymyn y naill neu'r llall o'r opsiynau sydd ar gael er mwyn dyfarnu'r contractau ar gyfer y gwasanaethau hyn – y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, neu'r pris isaf.

Y sefyllfa gyfredol

Yn niffyg rheolau penodol, mae Sector Cyhoeddus Cymru yn rhydd i ddewis y meini prawf ar gyfer dyfarnu contractau ar gyfer yr ystod o wasanaethau a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Gallai hyn arwain at ddethol meini prawf anaddas ar gyfer dyfarnu'r contractau hyn.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Dengys y dystiolaeth fod y canlyniadau gorau o gaffael fel arfer yn cael eu hysgogi gan gyfuniad o feini prawf ansawdd a phris.

Pam rydym yn argymhell newid?

O ystyried bod y mathau o wasanaethau a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn cynnwys darparu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen i aelodau agored i niwed o'r cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod lle cyfyngedig i ddyfarnu contractau o'r natur hon ar sail y pris isaf.

Argymhellion

Rydym yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid ynglŷn ag a ddylai'r sector cyhoeddus yng Nghymru ddyfarnu contractau am y gwasanaethau a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn unol â rheolau penodol yn ymwneud â meini prawf dyfarnu contractau.

Rydym o'r farn y dylem orchymyn y defnydd o feini prawf tendro mwyaf manteisiol yn economaidd fel yr unig sail ar gyfer dyfarnu contractau o dan reoliadau 74-77.

Cwestiwn 6:

A ydych chi'n credu mai ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd yn unig y dylai Sector Cyhoeddus Cymru ddyfarnu contractau am y gwasanaethau a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015? Os nad ydych yn credu hynny, pam ddim?

Os atebwch eich bod yn credu hynny, a ddylai fod dyletswydd gyfreithiol mai ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd yn unig y dylai Sector Cyhoeddus Cymru ddyfarnu contractau am y gwasanaethau a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015?

Ymddygiad moesegol cyflenwyr wrth ddarparu contractau cyhoeddus

Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflenwyr sy'n ymwneud â darparu contractau Sector Cyhoeddus Cymru yn glynu at safonau uchel o ymddygiad moesegol.

Mae gan weithwyr busnesau, a'u cadwyni cyflenwi, sy'n ymwneud â darparu ein contractau hawl i amodau gwaith teg. Ymhellach, mae is-gontractwyr yn haeddu cael eu trin yn deg a chyda pharch, yn enwedig mewn perthynas â thelerau talu i lawr y gadwyn gyflenwi.

O bryd i'w gilydd, mae Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi cyhoeddi Nodiadau Cyngor Caffael a dosbarthwyd y rhain i Sector Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt reoli arferion busnes annheg (er enghraifft, cosbrestru ac arferion gwaith mewn prosiectau cyhoeddus) drwy gaffael cyhoeddus. Mae sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am raeadru'r wybodaeth hon i bob rhan berthnasol o'u sefydliadau.

Y prif fater

Nid oes unrhyw bwysau statudol i'r Nodiadau Cyngor Caffael ar hyn o bryd a gall Sector Cyhoeddus Cymru ddewis a yw'n cymhwyso holl ofynion y nodiadau ai peidio.

Mae cymhwyso'r Nodiadau Cyngor Caffael yn ofyniad yn Natganiad Polisi Caffael Cymru. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth nad yw eu defnydd mor eang ag y mae gofyn iddo fod, ac o'r herwydd, collir cyfleoedd i ddefnyddio caffael cyhoeddus fel lifer strategol ar gyfer ysgogi ymddygiad ac arferion moesegol gan brif gontractwyr a'u cadwyni cyflenwi.

Y sefyllfa gyfredol

Mae Erthygl 18(2) o Gyfarwydddeb Prynu Cyhoeddus yr UE yn nodi

Member States shall take appropriate measures to ensure that in the performance of public contracts economic operators comply with applicable obligations in the fields of environmental, social and labour law established by Union law, national law, collective agreements or by the international environmental, social and labour law provisions listed in Annex X.

Ni throsglwyddwyd yr erthygl hon yn rhan o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Tystiolaeth ar gyfer newid

Nid oes gan y Nodiadau Cyngor Caffael unrhyw statws cyfreithiol ynddynt eu hunain ac felly, mae rhyddid i Sector Cyhoeddus Cymru benderfynu a ddylid cymhwyso pob un o ofynion y nodiadau.

Mae hyn yn cyfyngu ar effaith rhai polisiâu ac yn lleihau gwerth gwariant caffael yn ei ystyr ehangaf. Er enghraifft, cafwyd tystiolaeth yn ddiweddar na wneir y defnydd gorau o'r Nodyn Cyngor Caffael ar Arferion Cyflogaeth yn Achos Prosiectau a Ariennir yn Gyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015. Golyga hyn fod gweithwyr a ddefnyddiwyd ar brosiectau cyhoeddus wedi bod yn agored i amodau gwaith camfanteisiol.

Pam rydym yn argymhell newid?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cyflenwyr sy'n ymwneud â darparu contractau cyhoeddus yn glynu at y safonau uchaf o ymddygiad moesegol ac arferion busnes.

Dylai Sector Cyhoeddus Cymru ysgogi'r safonau hyn a bydd cymhwyso Nodiadau Cyngor Caffael yn ehangach yn helpu i sicrhau'r newid hwn. Ni chaiff Sector Cyhoeddus Cymru ei orfodi i gydymffurfio â'r Nodiadau Cyngor Caffael ar hyn o bryd a bydd y modd y cânt eu cymhwyso yn gwella os ceir rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny.

Argymhellion

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull mwyaf effeithiol o gryfhau defnydd Sector Cyhoeddus Cymru o'r Nodiadau Cyngor Caffael, ac mae'n ystyried y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i naill ai gymhwyso neu ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chytundebau ar y cyd yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol, cyfraith gymdeithasol a/neu gyfraith llafur.

Cwestiwn 7:

A ddylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i gymhwyso unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn ymwneud â chytundebau ar y cyd mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, cyfraith gymdeithasol a/neu gyfraith llafur?

NEU

A ydych chi'n credu y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar Sector Cyhoeddus Cymru i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn ymwneud â chytundebau ar y cyd mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, cyfraith gymdeithasol a/neu gyfraith llafur?